

Rôl CIC Hywel Dda ym Mhroses Meddygfa Wag Solfach Rhagfyr 2022 i fis Mawrth 2023

Cefndir

Dywedodd y Bwrdd Iechyd wrthym fod y contract GMS wedi cael ei dychwelyd yn ffurfiol ar Rhagfyr 14^{fed} 2022 gyda'r feddygfa yn rhoi cyfnod rhybudd statudol o 3 mis. Dechreuodd y gwaith ar unwaith gyda'r Bwrdd Iechyd i ddeall y sefyllfa sy'n codi a sut y dylid cynllunio a strwythuro'r ymgysylltu â'r cyhoedd. Cynhaliwyd Panel Meddygfa Wag gan y Bwrdd Iechyd ar Ionawr 9fed 2023. Cynhelir Panel Ymarfer Gwag arall ar Chwefror 13 I fyfyrion ar yr ymatebion i'r ymgysylltiad a chaiff penderfyniad terfynol ei wneud gan y Bwrdd Iechyd mewn cyfarfod o'r Bwrdd Cyhoeddus Eithriadol ar 23 Chwefror.

Rôl y CIC mewn Newid Gwasanaethau

Mae gan Gyngorau Iechyd Cymunedol rôl benodol ynghylch cynllunio neu newid gwasanaethau'r GIG a nodir yn Rheoliadau Llywodraeth Cymru (2015). Mae'r rôl benodol hon wedi bod yn destun canllawiau manylach Llywodraeth Cymru sy'n mynd i'r afael â rolau sefydliadau'r GIG a'r Gyngorau Iechyd Cymuned mewn perthynas â phrosesau newid gwasanaethau ac ymgynghoriad cyhoeddus.

Ein rôl wrth gynllunio'r broses ymgysylltu â'r cyhoedd

Trwy drafodaethau gyda'r Bwrdd Iechyd, buom yn cydweithio i gytuno ar gynllun ymgysylltu â'r cyhoedd. Cytunwyd yn rhithiol ar y dull gweithredu gan Bwyllgor Gweithredol CIC ym mis Ionawr.

- Roedd y cyfnod rhybudd byr yn golygu bod yn rhaid cywasgu'r cyfnod ymgysylltu â'r cyhoedd i gyd-fynd â'r amserlenni llywodraethiant heriol dan sylw.
- Roedd y cyfnod ymgysylltu yn cael ei gynnal rhwng dydd Llun 6 Ionawr a dydd Gwener 4 Medi gydag ymatebion hwyr ar-lein yn dal i gael eu derbyn hyd at ddydd Gwener 10 Ionawr.
- Roedd y broses ymgysylltu yn defnyddio dulliau cyfryngau safonol, cyfryngau cymdeithasol, poster a phapur/rhith-arolwg. Defnyddiwyd Hwb Cyfathrebu pwrpasol y Bwrdd Iechyd i dderbyn galwadau ffôn.
- Ar adeg ysgrifennu mae 1213 o bobl wedi ymateb er ei fod yn cael ei gydnabod y gallai ychydig o bobl fod wedi cwblhau'r arolwg fwy nag unwaith ac felly dydy nifer yr ymatebion i'r arolwg ddim o reidrwydd yn adlewyrchu union nifer y bobl a ymatebodd.
- Cynhaliwyd digwyddiad ymgysylltu yn Solfach ar 24ain o Ionawr. Daeth 249 o bobl i'r digwyddiad dros gyfnod o 5 awr.
- Bu'r Bwrdd Iechyd yn ymgysylltu â'r Cyngor Cymuned fel rhan o'u dull gweithredu.
- Oherwydd y pryderon yn ymwneud â newidiadau mawr posib i wasanaethau meddygon teulu'r cymunedau lleol, rhoddwyd dewis i'r cyhoedd ymateb yn uniongyrchol i'r CIC. Dewisodd nifer gymharol fach o bobl (7 gydag un llythyr wedi ei dderbyn) wneud hyn.

Beth oedd ein barn am y broses ymgysylltu

Roeddem o'r farn bod y broses ymgysylltu yn rhagorol o ystyried yr amserlenni byr. Gweithiodd y Bwrdd Iechyd gyda ni yn y camau cynnar a chyfathrebu'n effeithiol gyda'r CIC drwy gydol yr amser. Roedd hyn yn cynnwys cyfarfodydd ymgysylltu wythnosol "dal i fyny". Mynychodd y Cyngor Iechyd Cymuned gyfarfod cychwynnol y Panel Meddygfa Wag a bydd yn bresennol ar gyfer y cyfarfod olaf a chyfarfod Bwrdd Cyhoeddus Eithriadol y Bwrdd Iechyd.

Cafodd y broses gymorth gan y Cyngor Cymuned gweithgar a chymwynasgar ond roedd ymrwymiad y Bwrdd Iechyd ei hun i'r broses yn amlwg. Er enghraifft, roedd nifer dda wedi mynychu'r digwyddiad ymgysylltu ac roedd aelodau o'r tîm Gofal Sylfaenol yn ogystal ag uwch reolwyr yn bresennol i siarad â'r cyhoedd. Er i ni glywed am

rwystredigaethau gan ambell berson wrth iddyn nhw aros i siarad gyda staff y Bwrdd Iechyd roedd hi'n anodd rhoi bai ar y dull gweithredu.

Ar y cyfan, esgorodd yr ymgysylltu ar ymateb sylweddol. Roedd hyn yn rhannol oherwydd yr effaith sylweddol y mae materion fel hyn yn ei gael ar gymunedau a'r adwaith o ganlyniad i hynny. Fodd bynnag, dangosodd hefyd pa mor hygyrch oedd y broses. Yn ehangach, byddem yn adlewyrchu mai dull y Bwrdd Iechyd tuag at y sefyllfa hon (sydd wedi esblygu dros y blynyddoedd diwethaf ac achosion o feddygfeydd gwag) yw'r meincnod bellach ar gyfer ymgysylltu adweithiol lleol.

Yr hyn a ddywedodd pobl yn ystod yr ymgysylltu

Cododd nifer o themâu eang yn ystod y cyfnod ymgysylltu:

- Hygyrchedd: roedd llawer o bobl yn gwerthfawrogi hygyrchedd y feddygfa yn Solfach ac yn poeni sut y byddent yn cael mynediad at feddyg teulu pe bai'r feddygfa'n cau a'u bod nhw yn cael eu gwasgaru i restr meddygfa arall. Roedd pryderon clir ynglŷn â chael mynediad at ofal meddyg teulu mewn meddygfa newydd, y cynnwrf a'r ansicrwydd cysylltiedig.
- Nododd nifer y byddai parcio yn arbennig o anodd yn Nhyddewi, o ystyried diffyg lleoedd parcio gan feddygfa Tyddewi a diffyg parcio ceir cyhoeddus gerllaw, yn enwedig yn ystod misoedd prysur yr haf.
- Roedd mwyafrif helaeth yr ymatebion yn dangos bod pobl eisiau parhau i dderbyn gofal o'u meddygfa bresennol.
- Roedd llawer o bobl yn gwerthfawrogi statws meddygfa fferyllol meddygfa Solfach o ran hwylustod pan roedd pobl yn cael presgripsiynau a'r rôl yr oedd yn ei chwarae mewn parhad gofal.
- Roedd pryder cyffredinol yn ymwneud â'r effaith ar Solfach fel pentref a chymuned.

Data wedi'i gasglu a chanfyddiadau nodedig yn ystod yr ymgysylltu

Mae'r ymgysylltiad cyhoeddus sylweddol a'r data dilynol a gasglwyd yn rhoi darlun diddorol ochr yn ochr â rhai materion sy'n benodol i'r ardal.

Gofal Solfach a Ffit Strategol gyda nodau cyrff cyhoeddus

Roedd nifer o bobl a gymerodd ran yn y broses ymgysylltu yn rhan o neu'n ddefnyddwyr Gofal Solfach. Mae hon yn elusen sefydledig (2015) a'i nod datganedig yw;

"cynnal a gwella iechyd a lles ein cymuned trwy alluogi ein preswylwyr i aros yn eu cartrefi eu hunain a pharhau i fod yn rhan o'u cymuned".

Mae wedi cael cydnabyddiaeth drwy geisiadau am gyllid ac fe'i ystyrir yn fodel cymunedol llwyddiannus.

Roedd yn amlwg bod llawer o bobl yn teimlo bod bodolaeth meddygfa yn wasanaeth pwysig ochr yn ochr â Gofal Solfach ac mae'n berthynas sy'n creu budd ategol, gan helpu'r gymuned yn y pen draw. O safbwynt CIC, byddai nod strategol hirdymor y Bwrdd Iechyd o ddatblygu "model cymdeithasol" o ofal yn cael ei danseilio pe bai strwythurau cefnogi fel meddygfeydd yn mynd yn brinnach ac yn fwy pell o rai cymunedau gwledig.

Darpariaeth meddygon teulu ar benrhyn Tyddewi

Daeth yn amlwg na ellir gwneud y penderfyniad ar ddyfodol Meddygfa Solfach ar wahân i fater ehangach y Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol (GMS) ar benrhyn Tyddewi. Mae'r feddygfa yn Nhyddewi hefyd yn fregus ac rydym yn deall y gallai unrhyw wasgaru cleifion o Solfach i'r feddygfa ei ansefydlogi ymhellach ac arwain at gontract GMS arall yn cael ei dychwelyd a chau byr-rybudd.

Byddai'r diffyg darpariaeth meddygon teulu ar y penrhyn yn broblem sylweddol i nifer o bobl sy'n byw yno, yn enwedig y rhai mwyaf bregus a'r rhai sy'n dibynnu ar drafnidiaeth gyhoeddus. Ar hyn o bryd fe fyddai teithiau bws o ardal Tyddewi i Abergwaun neu Hwlfordd ar gyfer y rheiny sy'n ddigon iach i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn golygu taith o 2 awr ddwy ffordd.

Roedd y data o'r ymarfer ymgysylltu yn amlygu rhai themâu diddorol. Ymhlith y canfyddiadau roedd yn amlwg:

- (a) Dangosodd proffil oedran yr ymatebwyr arolwg fod bron i 50% dros 65 oed a bod bron i chwarter oed dros 75 oed.
- (b) Dywedodd 410 o ymatebwyr yr arolwg fod ganddynt anabledd, salwch hirdymor neu gyflwr iechyd. Cafodd 187 o'r rhain eu

categoriadau fel salwch tymor hir ac fe wnaeth 80 o bobl dynnu sylw at ryw lefel o anhawster iechyd meddwl.

- (c) Roedd bron 13% o'r ymatebwyr yn ofalwyr di-dâl
- (d) Pan ofynnwyd sut y gwnaethon nhw deithio i feddygfa Solfach, fe wnaeth 75% yrru mewn car ac 19% yn cerdded

Gan dderbyn bod rhyw ogwydd hunan-ddethol mewn arolwg fel yr un yma, mae gan Solfach lefelau cymharol uchel o angen iechyd a phoblogaeth sy'n heneiddio.

O ystyried mai'r oedran cyfartalog y mae pobl yn dechrau ystyried rhoi'r gorau i yrru yw 82¹, gallai nifer cynyddol yn y gymuned weld darganfod trafndiaeth yn rhwystr i gael mynediad i'w meddyg teulu nawr neu yn y blynyddoedd nesaf. Byddai gwneud eu meddyg teulu'n bellach yn ddaearyddol yn gwaethgu'r broblem hon. Yn ogystal, roedd cynrychiolwyr Gofal Solfach yn poeni efallai na fyddai eu model presennol yn gallu cynnal cymorth trafndiaeth i bobl os oedd pellteroedd teithio a'r galw'n cynyddu.

Y lleiaf gwaethaf yn erbyn y dewis gorau

Un o fanteision ymgysylltu â'r cyhoedd o ansawdd da (fel y gwelwyd yn y broses hon) yw'r cyfle i drafod ac egluro'r gwirioneddau a'r cymhlethdodau "tu ôl i'r llenni" y mae Byrddau Iechyd a meddygfeydd yn eu hwynebu o wythnos i wythnos. Roedd nifer o bobl yn gwerthfawrogi'r eglurder a ddaeth yn sgil hyn i'w sgrysiâu a sut y cynhyrchodd ddealltwriaeth fwy pragmataidd (os braidd yn ddigalon) o'r sefyllfa leol.

O ystyried bod y mwyafrif llethol yn teimlo y byddai'n well ganddyn nhw gael mynediad at feddyg teulu mewn meddygfa yn Solfach fe wnaethom ofyn i bobl beth oedden nhw'n ei deimlo am y posibilrwydd o ddiwrnodau "dim meddyg teulu" posib a sylw darniog pe bai'r Bwrdd Iechyd yn dewis camu i'r adwy a gwneud y feddygfa yn feddygfa a reolir. Roedd yn amlwg bod pobl yn ffurfio barn realistig a phwyllog am yr hyn fyddai'n well ganddyn nhw ac fel arfer roedden nhw eisïau cadw "rhywbeth yn hytrach na dim". Er eu bod yn gwbl gywir yn disgwyl gwasanaethau o safon uchel roedden nhw hefyd yn deall

¹ https://www.iamroadsmart.com/docs/default-source/research-reports/report_keeping-older-drivers-safe-v3.pdf?sfvrsn=e260e750_4

efallai na fyddai meddygfa wedi'i reoli yn gallu darparu'r union lefel o wasanaeth yr oedden nhw wedi arfer ag ef.

Ein Casgliadau

Wrth gyflwyno casgliadau'r Cyngor Iechyd Cymuned, mae'n bwysig tynnu sylw at rolau priodol y Bwrdd Iechyd a CIC o fewn y broses hon. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cadw contract gyda meddygfeydd. Os yw'n derbyn ymddiswyddiad contract fe fydd yn ceisio sicrhau bod pobl sydd wedi eu heffeithio yn parhau i fod wedi'u cofrestru gyda meddyg teulu. Rhaid iddo hefyd roi ystyriaeth ddyledus i anghenion y gymuned y mae'n ei gwasanaethu.

Fel y nodwyd ar ddechrau'r ddogfen hon, mae gan y Cyngor Iechyd Cymuned rôl statudol yn newid gwasanaethau'r GIG, gan sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn ymgysylltu'n effeithiol â'r cyhoedd. Bydd y CIC hefyd yn datblygu ei farn gytbwys ei hun ar sail yr hyn mae'r cyhoedd wedi'i ddweud.

Nid yw CICau mewn sefyllfa i gymryd safiad arbenigol ar logisteg gymhleth a heriol darpariaeth meddygon teulu neu greu atebion ar gyfer ardal. Rydym yn canolbwyntio ar sicrhau bod ein casgliadau wedi'u seilio ar effeithiau go iawn cynigion newid gwasanaethau ar bobl, gan sicrhau bod yr effeithiau hyn yn cael eu deall a'u hymgorffori mewn penderfyniadau. Rydym wedi manteisio ar y cyfle i ystyried yr ymatebion a wnaed gan y cyhoedd.

Ar ôl ystyried yr wybodaeth sydd ar gael ac adborth y cyhoedd yn ystod y cyfnod ymgysylltu mae'r CIC wedi gwneud y pwyntiau canlynol i'r Cyfarfod Panel Meddygfa Wag:

Y dewis "lleiaf gwaethaf"

Roedd y bygythiad o gau Meddygfa Solfach yn annymunol iawn i'r gymuned. Arweiniodd ansawdd yr ymgysylltu cyhoeddus a drefnwyd gan y Bwrdd Iechyd, at gyfradd ymateb uchel a chroes-doriad da o safbwyntiau lleol. Roedd y bobl roedden ni'n siarad â nhw yn deall y gwirioneddau anodd o fewn pob un o'r opsiynau. O ganlyniadau'r arolwg, roedd 90% o bobl yn glir o blaid yr opsiwn meddygfa dan reolaeth y Bwrdd Iechyd ar y sail eu bod yn teimlo mai dyma'r "lleiaf gwaethaf".

Mae'r CIC yn cytuno gyda'r farn hon. Er ein bod yn gwybod bod y Bwrdd Iechyd yn ei chael hi'n anodd i staffio eu meddygfeydd rheoledig o ystyried y nifer cyfyngedig o feddygon teulu i alw arnynt, byddem yn poeni y gallai cau Solfach ac o ganlyniad gwasgaru cleifion esgor ar golli gwasanaethau GMS ar benrhyn Tyddewi. Er bod argaeledd meddygon teulu yn un o brif benderfynyddion darpariaeth GMS, mae adeiladau hefyd yn bwysig a phe bai Solfach yn dod yn feddygfa a reolir, byddai'r Bwrdd Iechyd mewn sefyllfa well i gynnal troedle corfforol wrth iddo geisio sicrhau gwasanaethau GMS yn yr ardal.

Colli Statws Meddygfa Fferyllol

Roedd llawer o bobl yn cydnabod, waeth pa opsiwn y byddai'r Bwrdd Iechyd yn ei ddewis ar gyfer dyfodol Meddygfa Solfach, byddai'n peidio â bod yn feddygfa fferyllol. Er mai ychydig o bobl oedd yn rhestru hyn fel eu prif bryder, roedd yn wasanaeth gwerthfawr a chyfleus. Nid yw'r fferyllfa gymunedol yn Nhyddewi yn darparu gwasanaeth fferyllol ar hyn o bryd ond yn ystod y digwyddiad ymgysylltu awgrymwyd y gallai'r broses o golli meddygfa fferyllol yn Solfach gael ei leddfu gan y fferyllfa sy'n cynnig ei gyflwyno. Mae angen archwilio'r posibilrwydd hwn ac rydym yn deall bod y Bwrdd Iechyd yn ôl pob tebyg mewn cysylltiad â'r fferyllfa.

Safle Meddygfa Solfach yn y Gymuned

Mae Solfach yn gymuned gymharol unigryw o ystyried ei bod yn gartref i elusen arloesol yng Ngofal Solfach. Roeddem yn credu y byddai cynnal Meddygfa Solfach fel meddygfa a reolir yn caniatáu perthynas sy'n fuddiol i bawb gyda Gofal Solfach. Byddai hyn yn cydfynd â gweledigaeth strategol y Bwrdd Iechyd a gwnaethom ei groesawu yn fras yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus "Trawsnewid Gwasanaethau Clinigol" a'r rhaglen drawsnewid bresennol "Gwireddu Canolbarth a Gorllewin Cymru Iachach".

Cyfathrebu

O ystyried lefel y pryder yn y gymuned, mae'r CIC yn disgwyl bod cyfathrebu'r canlyniad a newidiadau cysylltiedig i'r gwasanaethau a gynigir angen eu cyfleu'n glir. O ystyried y Cyngor Cymuned gweithgar, Gofal Solfach ac ati, mae angen meddwl sut mae

canlyniadau'r broses hon yn cael eu trosglwyddo i bobl fel eu bod yn glir ar yr hyn y gallant ei ddisgwyl.

Canlyniad

Ar 23 Chwefror cytunodd Bwrdd Iechyd Hywel Dda i gynnal Meddygfa Solfach fel meddygfa dan reolaeth am gyfnod dros dro. Rydym yn croesawu'r datblygiad hwn, ond rydym wedi gofyn i'r Bwrdd Iechyd arolygu profiadau a boddhad cleifion wrth i drefniadau ddod i fodolaeth. Byddwn yn parhau i fonitro profiadau cleifion yr ydym yn eu clywed o feddygfa Solfach a meddygfeydd eraill a reolir.